

2014 Rhif (Cy. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r  
A40 (Cylchfan Tarell, Aberhonddu,  
Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya)  
2014

*Gwnaed* 4 Mehefin 2014

*Yn dod i rym* 6 Mehefin 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) a Cefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mehefin 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A40 (Cylchfan Tarell, Aberhonddu, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2014.

### Cyfyngiad

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar:

i. y darn o gefnffordd yr A470 yn Aberhonddu yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 200 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0796 i Ystad Ddiwydiannol Ffrwdgrech hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Chylchfan Tarell;

ii. y darn o gefnffordd yr A40 yn Aberhonddu yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Tarell hyd at bwynt 80 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y Gylchfan honno, gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol gyfan Cylchfan Tarell.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi,  
Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion  
Cymru

Dyddiedig

4 Mehefin 2014

**RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A470 A'R A40  
(CYLCHFAN TARELL, ABERHONDDU,  
POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 2014**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darnau o gefnffyrdd yr A470 a'r A40 wrth Gylchfan Tarell, Aberhonddu, Powys ac sy'n arwain at y Gylchfan ac yn ymadael â hi, fel y'u pennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Mehefin 2014.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 4 Mehefin 2014, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol yng Nghyngor Sir Powys, Neuadd Brycheiniog, Ffordd Cambrian, Aberhonddu LD3 7HR neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1137698/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2014).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**  
**Terfyn Cyflymder 40 mya**

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 200 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol yr U0796 i Ystad Ddiwydiannol Ffrwdgrech hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Chylchfan Tarell.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Tarell hyd at bwynt 80 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y Gylchfan honno, gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol gyfan Cylchfan Tarell.